
DYDD LLUN, MAI 16, 2011


# YMDDYGIAD ANNERBYNIOL – (gan BWY?)

Rydw i'n byw mewn ardal eithaf parchus yng Nghanolbarth Cymru ond yn ddiweddar mae criwiau o fechgyn a merched ifanc wedi bod yn boen i drigolion yr ardal. Nos Wener diwethaf, yn ôl eu harfer, roedden nhw wedi ymgasglu ar sgwâr y pentref ac yn aflonyddu ar yr ardal gyda'u sŵn. Afraid dweud eu bod yn feddw ar alcohol ac efallai gyffuriau.
Cafodd babi 6 mis oed fy ffrind ei ddeffro gan yr holl rialtwch a gwrthodai fynd yn ôl i gysgu. Roedd fel y gôg - a hynny am y bedwaredd nos Wener yn olynol. Roedd fy ffrind wedi cyrraedd pen ei dennyn a ffoniodd yr heddlu. Er ei syndod yr ateb gafodd oedd mai ymddygiad gwrthgymdeithasol oedd y sŵn ac nid trosedd. 'Gyda throseddau rydyn ni'n gweithio. Dydy ymddwyn yn wrthgymdeithasol ddim yn torri'r gyfraith,' meddai PC Williams cyn ychwanegu, 'ewch i gwyno wrth eu rhieni.'
Ond onid ydy ymddygiad gwrthgymdeithasol yn arwain at drais? Methiant i ddelio gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol arweiniodd at drasiedïau fel llofruddiaeth Garry Newlove, y trawiad calon a gafodd David Askew wedi blynyddoedd o fwlio, a hunanladdiad/ llofruddiaeth Fiona Pilkinton a'i merch, Francecca, yn dilyn cael eu poeni am dros ddeng mlynedd.
Gan fy mod mor anfodlon gydag ymateb ein heddlu lleol euthum i wneud ychydig o ymchwil a dyma ddaeth i'r amlwg wedi i 5,699 o bobl gael eu holi pa beth wnaeth yr heddlu fel ymateb i'w cwynion.




▼2011
▼MAI 2011
Ymddygiad annerbyniol
▶EBRILL 2011
▶MAWRTH 2011
▶CHWEFROR 2011
▶IONAWR 2011
▶2010

Gweddol, o bosibl, oedd canlyniadau'r arolwg, yn enwedig o ystyried yr atebion i'r cwestiwn arall a holwyd, 'Pwy, yn eich barn chi, ddylai ddelio gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eich ardal?' Mae'n braf gweld nad ydw i'n wahanol i drwch y boblogaeth!




Sut brofiadau ydych chi wedi eu cael yn eich ardal chi? Cysylltwch i ni gael cymharu!